# Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022

**2022 dsc 1**

## RHAN 4

PRENTISIAETHAU

*Swyddogaethau'r Comisiwn*

PROSPECTIVE

### 119 Pŵer i ddyroddi tystysgrifau prentisiaethau

(1) Caiff y Comisiwn ddyroddi tystysgrif ("tystysgrif brentisiaeth") mewn cysylltiad â pherson sy'n gwneud cais amdani, os yw'n ymddangos i'r Comisiwn fod y person wedi cwblhau prentisiaeth Gymreig gymeradwy.

(2) Caiff y Comisiwn, yn dilyn cais, gyflenwi copi o dystysgrif brentisiaeth i berson y dyroddwyd y dystysgrif mewn cysylltiad ag ef.

(3) Caiff y Comisiwn benderfynu—

(a) y ffordd y mae rhaid i geisiadau am dystysgrifau neu am gopïau o dystysgrifau gael eu gwneud;

(b) cynnwys tystysgrifau.

(4) Ni chaiff y Comisiwn godi ffi am ddyroddi tystysgrif brentisiaeth neu am gyflenwi copi ohoni ond os yw rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru yn awdurdodi codi'r ffi, a dim ond i'r graddau y mae'r rheoliadau yn awdurdodi hynny.

***Statws*** *Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Adran 119. (See end of Document for details)*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 119 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 148(2)**

**Statws**
Mae’r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Adran 119.